# Cychwyn ar eich siwrnai glyfar

Nawr eich bod yn gwybod sut i ddefnyddio eich Dangosydd Cartref, rydych chi ar gychwyn eich siwrnai glyfar. Drwy ddefnyddio'r wybodaeth ar eich Dangosydd Cartref, gallwch chi ddechrau deall eich defnydd o ynni ac adnabod ffyrdd posib o arbed, gan roi mwy o reolaeth dros eich ynni i chi.

**Dechreuwch ddeall eich defnydd o ynni ac adnabod ffyrdd posib o arbed ynni**

# Awgrymiadau ychwanegol i'ch helpu chi i ddechrau arbed yn glyfar*

1 Gall cartref cyffredin yn y DU **arbed tua £30 y flwyddyn drwy wneud dim mwy na chofio diffodd dyfeisiau yn gyfan gwbl yn hytrach na'u gadael ar y golau coch.** Diffoddwch eich teledu, eich cyfrifiadur a'ch consol a gallech chi leihau eich costau ynni.

2 Pe bai cartref cyffredin yn newid pob bwlb hen ffasiwn sydd ganddynt am fylbiau golau fflworoleuol cryno (CFLs), a phob bwlb halogen am rai LED, fe allai'r cartref **arbed tua £35 y flwyddyn ar filiau.**

3 Fe allai troi thermostat eich ystafell i lawr hyd yn oed un radd **arbed rhwng £85 a £90 y flwyddyn.**

4 Peidiwch â chynhesu eich dŵr oni bai eich bod am ei ddefnyddio. Os yw eich tanc wedi ei inswleiddio'n dda, bydd eich dŵr yn aros yn boeth yn hirach.

5 Diffoddwch y goleuadau os nad ydych chi'n eu defnyddio. Os byddwch chi'n diffodd golau am ychydig eiliadau hyd yn oed, bydd hynny'n arbed mwy o ynni nag y mae'n ei gymryd i'r golau gynnau eto, waeth pa fath o olau sydd gennych chi. Bydd hyn yn **arbed tua £13 ar eich biliau bob blwyddyn.**

6 Mae gliniaduron fel arfer yn defnyddio 85% yn llai o drydan mewn blwyddyn na chyfrifiaduron bwrdd gwaith. Fe allai dewis gliniadur yn hytrach na chyfrifiadur bwrdd gwaith a lleihau'r amser ar y golau coch **arbed hyd at £17 y flwyddyn.**

*Daw'r wybodaeth hon o wefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. I gael mwy o wybodaeth, ewch i **energysavingtrust.org.uk**

# Rydyn ni am roi mwy i chi

Yn ScottishPower, rydyn ni'n credu mai ein gwaith ni yw rhoi mwy na dim ond ynni i chi. Rydyn ni hefyd yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn helpu cwsmeriaid fel chi i fod yn fwy ynni-effeithlon. Dyna pam rydyn ni'n falch iawn o gyflwyno mesuryddion clyfar i'ch cartref. Po fwyaf y byddwch yn monitro eich defnydd o ynni, y gorau y bydd eich dealltwriaeth. Gallai hyn eich helpu i leihau eich defnydd o ynni ac arbed arian o bosib.

I gael mwy o awgrymiadau ynghylch arbed ynni, ewch i'n tudalennau Effeithlonrwydd Ynni ar-lein yn **scottishpower.co.uk/energy-efficiency**

Fe allwch chi hefyd gael cyngor diduedd drwy fynd i **energysavingtrust.org.uk**

## Cymorth ychwanegol gyda'n Gwasanaethau Blaenoriaeth

Rydyn ni am roi gymaint o gymorth ag y bo modd i'r cwsmeriaid hynny sydd angen y cymorth hwnnw. Gallech chi fod yn gymwys i fod ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth am amrywiaeth o resymau, e.e. salwch cronig, anabledd, neu newid yn eich amgylchiadau personol. Os ydyn ni'n dod yn ymwybodol y byddech chi (neu rywun yn eich cartref) ar eich ennill gydag unrhyw un o'n Gwasanaethau Blaenoriaeth, byddwn yn cynnig eich ychwanegu at ein Cofrestr – neu, gallwch chi roi gwybod i ni os ydych chi'n credu eich bod yn gymwys. I gael mwy o wybodaeth, ewch i **scottishpower.co.uk/psr** neu ffoniwch ni ar **0800 027 0072**.

SCP6807 DEC 16

# Croeso i ynni mwy clyfar

Nawr fod eich mesuryddion clyfar ar waith, gallwch chi ddechrau mwynhau'r manteision sydd gan dechnoleg glyfar i'w cynnig. Mae'r canllaw defnyddiol hwn i ddefnyddwyr yn disgrifio rhai o nodweddion eich Dangosydd Cartref, a fydd yn gallu eich helpu chi i reoli eich defnydd o ynni.

Ar ôl i chi ymgyfarwyddo â'r Dangosydd Cartref, byddwch yn fwy ymwybodol o faint o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio yn eich cartref, ac yn gweld lle gallech chi wneud newidiadau bach i arbed ynni. Rydyn ni wedi cynnwys rhywfaint o awgrymiadau syml ar y cefn i'ch helpu chi i arbed ynni, a, gyda gobaith, lleihau eich costau ynni hefyd.

## Dechrau arni gyda'ch Dangosydd Cartref

Yn debyg i bob dyfais ddi-wifr, weithiau bydd signal y Dangosydd yn isel, neu bydd yn colli cysylltiad â'ch mesuryddion clyfar yn gyfan gwbl, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ei gadw yn rhywle lle bydd yn cynnal y signal. Mae'r batri mewnol yn eich galluogi i gario'r Dangosydd o gwmpas y tŷ er mwyn gweld effeithiau troi dyfeisiau ymlaen a'u diffodd. Mae'r batri yn para tua awr cyn y bydd angen ei ailgysylltu â'r ffynhonnell bŵer, ond rydyn ni'n argymell i chi beidio â'i ddadblygio rhag ofn iddo golli pŵer.

Er mwyn troi eich Dangosydd Cartref ymlaen, pwyswch y botwm ar y cefn. I'w ddiffodd, pwyswch a dal y botwm am 10 eiliad.

Os bydd y Dangosydd yn colli pŵer wrth redeg ar y batri, dylech ei blygio yn ôl i mewn a phwyso ar y cefn. Bydd y Dangosydd Cartref yn cymryd ychydig funudau i ddiweddaru eich hanes ynni.

## Gweld eich defnydd o ynni

Pwyswch £ i weld eich defnydd yn y ffyrdd canlynol:

| Defnydd o Ynni | Sut mae'n ymddangos ar eich Dangosydd Cartref |
|---|---|
| **Ceiniog yr awr** | Pence per hour |
| **Cilowatau** | kW |
| **Allyriadau $CO_2$** | $KgCO_2$ per hour |
| **Ceiniog yr Uned** | Current tariff pence per kWh |
| **Ffi Sefydlog Dyddiol** | Current tariff (day) |

Dim ond canllaw yw'r gwerthoedd ariannol i roi syniad i chi o faint mae eich defnydd o ynni yn ei gostio. Nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiadau y gallech fod yn eu cael, na TAW. O ganlyniad, fe all eich bil ynni fod ychydig yn wahanol i'r swm sy'n cael ei ddangos ar eich Dangosydd.

## Newid rhwng gwybodaeth nwy a thrydan

Pwyswch ar eich Dangosydd i newid rhwng tanwyddau. Ar frig eich sgrin arddangos, mae plwg yn cynrychioli trydan a fflam yn cynrychioli nwy. Os mai cwsmer un tanwydd ydych chi, dim ond gwybodaeth am y tanwydd hwnnw fydd ar eich Dangosydd.

## Gweld defnydd o ynni dros gyfnod penodol

1. Pwyswch i weld faint rydych chi'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd.
2. Daliwch i bwyso , a bydd y Dangosydd yn newid yr amser i:
   - Hyd yma heddiw
   - Hyd yma yr wythnos hon
   - Hyd yma y mis hwn
   - Hyd yma eleni.

**Sylwch, mae eich mesurydd nwy yn diweddaru'r Dangosydd Cartref bob hanner awr, ac mae'r trydan yn diweddaru bob 10 eiliad.**

## Gweld darlleniadau mesurydd

Mae darlleniadau eich mesuryddion clyfar yn cael eu hanfon atom ni yn awtomatig, ond os hoffech chi eu gweld eich hunain, pwyswch . Bydd darlleniad eich mesurydd i'w weld yn y gornel dde uchaf. Gallwch chi newid rhwng darlleniadau trydan a nwy drwy bwyso .

## Y Goleuadau

Mae'r golau lliw yn rhoi syniad i chi o'r trydan rydych chi'n ei ddefnyddio yn eich cartref ar y pryd.

- **Gwyrdd – lefel isel o ddefnydd ynni**
- **Oren – lefel ganolig o ddefnydd ynni**
- **Coch – lefel uchel o ddefnydd ynni**

Yn seiliedig ar eich defnydd yn ystod yr wythnos flaenorol, bydd eich Dangosydd Cartref yn dechrau dysgu faint o drydan rydych chi'n ei ddefnyddio yn eich cartref. Os yw'r golau'n Goch, rydych chi'n defnyddio mwy o ynni o lawer nag yr oeddech yn yr wythnos flaenorol, ac efallai y byddai o fudd i chi edrych ar ffyrdd o leihau eich defnydd o ynni.

## Gosod cyllideb

Fe ddylai eich Dangosydd Cartref eich helpu chi i reoli'r ynni rydych chi'n ei ddefnyddio yn eich cartref a, gyda gobaith, eich helpu chi i fod yn fwy ynni-effeithlon. Er mwyn dechrau arni, gallwch chi osod cyllideb ar gyfer eich defnydd o ynni – fe all eich Dangosydd Cartref hyd yn oed ganu larwm os byddwch chi'n mynd dros y swm hwn. Beth am herio pawb yn y tŷ i lynu wrth y gyllideb?

Mae gan eich Dangosydd Cartref gyllidebau nwy a thrydan diofyn wedi eu gosod arno yn barod. Dilynwch y camau isod i osod eich cyllideb eich hun.

1. Pwyswch nes eich bod yn gallu gweld y deial.
2. Pwyswch er mwyn sgrolio rhwng y fframiau amser gwahanol a dewis un.
3. Yna dewiswch i ddewis trydan neu nwy. Sylwch nad oes modd i chi osod cyllideb yn y modd cyfun. Bydd angen i chi osod eich cyllidebau trydan a nwy ar wahân.
4. Ar ôl dewis un ai nwy neu drydan, pwyswch a dal £ am 10 eiliad. Yna bydd gennych chi 10 eiliad i ddechrau dewis eich cyllideb.
5. Bydd y sgrin wedyn yn dangos eich cyllideb ar gyfer y cyfnod a'r tanwydd a ddewiswyd. Nawr defnyddiwch i ddewis y gyllideb yr hoffech anelu ati. Pwyswch £ i osod y gyllideb.
6. I osod eich larwm cyllideb, mae angen i chi droi eich sain ymlaen, yna bydd larwm yn canu pan fyddwch chi'n cyrraedd y terfyn cyllideb a osodwyd. Pwyswch y botwm nes i chi gyrraedd y sgrin sain. Defnyddiwch y botymau i'w roi ar waith neu ei ddiffodd.

**Sylwch mai canllaw yn unig yw'r gyllideb rydych chi'n ei gosod, ac nid yw'n effeithio ar faint o ynni y gallwch ei ddefnyddio. Byddwch chi'n dal i gael eich bilio am yr ynni rydych chi'n ei ddefnyddio.**

**Cofiwch, nid y mesuryddion clyfar eu hunain sy'n arbed eich ynni, ond y ffordd rydych chi'n defnyddio ynni yn eich cartref. Fe allai eich Dangosydd Cartref eich helpu chi i adnabod ffyrdd o arbed ynni.**

## Cymharu eich defnydd o ynni

Fe allai defnyddio eich Dangosydd Cartref eich helpu chi i fod yn fwy ynni-effeithlon yn eich cartref. Mae'n caniatáu i chi weld eich defnydd presennol o ynni a chymharu hynny â'ch defnydd dros y diwrnod, wythnos, mis neu flwyddyn flaenorol.

1. Pwyswch i weld eich defnydd o ynni mewn cyfnod o'ch dewis.
2. Nawr defnyddiwch i sgrolio drwy eich defnydd o ynni yn y gorffennol a chymharu. Bydd y gair 'Now' yn dangos faint rydych chi wedi ei ddefnyddio y diwrnod/wythnos/mis/blwyddyn bresennol, a'r gair 'Past' yn dangos eich bod yn edrych ar gyfnodau yn y gorffennol.

# Gwybodaeth bwysig am eich Dangosydd

Bydd eich Dangosydd Cartref yn gweithio mewn tymereddau rhwng 0 a 40°C.

Mae'n bwysig nad ydych chi'n gwlychu eich Dangosydd. Peidiwch â'i lanhau â dŵr, glanhawyr hylif na pholish – os bydd angen i chi lanhau eich Dangosydd, defnyddio cadach sych fyddai orau.

Mae eich Dangosydd yn cydymffurfio â chyfarwyddeb Cyfyngiad ar Sylweddau Peryglus y Llywodraeth.

Mae eich Dangosydd wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer ei ddefnyddio yn yr Undeb Ewropeaidd.

Defnyddiwch y cyflenwad pŵer a ddaw gyda'r uned hon yn unig. Ni ddylid defnyddio'r cyflenwad pŵer hwn ag unrhyw ddyfais arall.

## Cod Ymarfer Gosod Mesuryddion Clyfar

Rydyn ni'n gweithio yn ôl y Cod Ymarfer Gosod Mesuryddion Clyfar (SMICoP) gorfodol, sy'n pennu'r safonau gofynnol y mae'n rhaid i aelodau o'r cod eu dilyn yng nghyswllt gosod mesuryddion clyfar. Prif amcanion y cod hwn yw sicrhau eich bod yn cael gwasanaeth o safon, eich bod yn gwybod sut i ddefnyddio eich mesurydd clyfar, a'ch bod wedi cael esboniad ynghylch sut gallwch chi wella eich effeithlonrwydd ynni yn sgil eich mesurydd clyfar. I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.smicop.co.uk

## Cwestiynau Cyffredin am y Dangosydd Cartref

**Pam ydw i wedi cael bil wedi ei amcangyfrif unwaith eto?**
Efallai na chawsom ni ddarlleniad cywir cyn gosod eich mesuryddion clyfar newydd. Peidiwch â phoeni, caiff hyn ei adlewyrchu'n gywir yn eich bil nesaf. Neu efallai fod amhariad wedi bod ar signal y cyfathrebiadau di-wifr, a achosodd i ni beidio â chael darlleniadau eich mesurydd. Caiff hyn ei gywiro ar ôl adfer y signal.

**Beth fydd yn digwydd os byddaf yn penderfynu newid cyflenwr?**
Ni fydd eich mesuryddion clyfar yn eich rhwystro rhag newid cyflenwr. Serch hynny, os byddwch chi'n penderfynu ein gadael, efallai na fydd eich cyflenwr newydd yn gweithredu eich mesuryddion clyfar yn yr un modd, sy'n golygu y gallech chi golli rhai o wasanaethau'r mesurydd clyfar – felly mae'n syniad gwirio cyn newid.

**A fydd fy nghloc yn newid yn awtomatig?**
Bydd, bydd yn diweddaru'n awtomatig rhwng GMT a BST.